Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

Cyfarfod at Wraidd y Mater

Boddhad Dioddefwyr

Pencadlys yr Heddlu

12 Chwefror 2020

Yn bresennol	
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Paula Hardy (PH)	Arweinydd Strategol ar gyfer Bregusrwydd a Dioddefwyr
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Lee Jones (LJ)	Prif Weithredwr
Sarah Mahon (SM)	Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd
Nia Scourfield (NS)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Jackie Trow (JT)	Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth
Emma Wools (EW) (CADEIRYDD)	Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Heddlu De Cymru	
Y Prif Uwch-arolygydd Phil Ashby (PA)	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
ACC Jenny Gilmer (JG)	Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol – Pennaeth y Portffolio Cymorth
Y Prif Arolygydd Dave Gordon (DG)	Pennaeth Cyfiawnder Troseddol (Arweinydd yr heddlu ar gyfer dioddefwyr)
Caroline Smart (CS)	Gwasanaethau Corfforaethol – Rheoli Corfforaethol
Y Dirprwy Brif Gwnstabl Jeremy Vaughan (JV)	Y Dirprwy Brif Gwnstabl
Carol Woodward (CW)	Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu
Ffocws Dioddefwyr De Cymru – Cynrychiolydd Partneriaid Allanol	
Elena Williams (EWi)	Ffocws Dioddefwyr De Cymru – Rheolwr Gweithrediadau

Rhif	Eitem	Cynnwys
1.	Croeso a Chyflwyniadau	1.1 Croesawodd EW y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau. Croesawyd Elena Williams fel gwestai allanol a fyddai'n cyfrannu at awr gyntaf y cyfarfod. 1.2 Amlinellodd EW ddiben y cyfarfod, sef ystyried boddhad dioddefwyr a'r gwasanaeth a ddarparwyd i ddioddefwyr. Byddai cofnodion y cyfarfod blaenorol yn cael eu hystyried ar ddiwedd y cyfarfod.
2.	Cyflwyniad ar y Rhaglen Deall Dioddefwyr	2.1 Estynnwyd gwahoddiad i CW roi cyflwyniad ar y Rhaglen. Rhoddodd CW drosolwg o waith tîm y Rhaglen, a oedd yn cynnwys siarad â dioddefwyr troseddau ynglŷn â'r gwasanaeth a gawsant. 2.2 Nododd CW fod y tîm yn cynnal cyfweliadau dros y ffôn rheolaidd â dioddefwyr cam-drin domestig, gan fod hwn yn faes pwnc yr oedd yn ofynnol casglu adborth arno yn genedlaethol. Roedd arolygon o fathau eraill o droseddau, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau casineb, yn cael eu cynnal hefyd, ac roedd yr adborth yn cael ei gyflwyno i gomanderiaid yr Unedau Rheoli Sylfaenol er mwyn myfyrio arno a nodi gwersi i'w dysgu o ran sut y gellid gwella'r gwasanaeth. 2.3 Nododd CW fod tîm y Rhaglen yn gweithio gyda thîm y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) i gynnal arolygon wyneb yn wyneb â dioddefwyr, a'i fod yn parhau i weithio gydag adrannau eraill fel yr Uned Diogelu'r Cyhoedd i geisio adborth a gwella gwasanaethau. Nododd CW mai'r brif thema a nodwyd o'r adborth gan ddioddefwyr oedd eu bod am gael diweddariadau mwy rheolaidd gan swyddogion mewn perthynas â'u hachos parhaus.
3.	Adroddiad Sicrwydd Busnes: Adolygiad Ar Wraidd y Mater o Foddhad Dioddefwyr	3.1 Estynnodd EW gwahoddiad i HJJ gyflwyno ei hadroddiad ar Foddhad Dioddefwyr. Rhoddodd yr adroddiad gipolwg ar safbwyntiau gweithwyr achos o Ffocws Dioddefwyr De Cymru. Nododd HJJ fod dioddefwyr yn teimlo nad oeddent bob amser yn cael diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â'u hachos ac nad oeddent bob amser yn cael gwybod am ganlyniad eu hachos, neu nad oeddent yn ei ddeall. Teimlai HJJ fod y materion hyn yn effeithio ar foddhad dioddefwyr, gan gynnwys hyder dioddefwyr o ran eu gallu i roi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Manylodd HJJ hefyd ar adborth arall a gafwyd, gan gynnwys amseroldeb achosion, nad oedd dioddefwyr wedi cael eu hatgyfeirio at wasanaethau cymorth dioddefwyr ar y cyfle cynharaf posibl, ac nad oedd swyddogion wedi rhoi'r wybodaeth gywir i ddioddefwyr am y gwasanaethau a oedd ar gael iddynt. Cyfeiriodd HJJ at yr adborth cadarnhaol a gafwyd gan ddioddefwyr, a oedd yn cynnwys cyswllt cyson, cael y wybodaeth ddiweddaraf, cael sicrwydd gan swyddogion ac ymatebion cyflym. 3.2 Estynnodd HJJ gwahoddiad i EWi o Ffocws Dioddefwyr De Cymru ychwanegu unrhyw sylwadau ychwanegol. Cadarnhaodd EWi mai'r prif fater oedd diffyg cyfathrebu rhwng swyddogion a dioddefwyr. Teimlai ei bod yn bwysig bod swyddogion yn rheoli disgwyliadau dioddefwyr, yn enwedig y rhai hynny a oedd yn credu y byddent yn cael diweddariad dyddiol neu wythnosol ar eu hachos. Nododd EWi

		faterion eraill a brofwyd gan ddioddefwyr hefyd, gan gynnwys diffyg dealltwriaeth o'u hachos a theimlo na fyddai neb yn eu credu. Aeth EWi yn ei blaen i ddweud bod Ffocws Dioddefwyr yn gweithio gyda'r dioddefwyr i ennyn eu sylw a rhoi sicrwydd cyson iddynt pan fyddent yn teimlo bod achos wedi bod yn mynd rhagddo am amser hir, a phwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hatgyfeirio ar y cyfle cynharaf posibl. 3.3 Cyfeiriodd EWi at yr ystadegau mewn perthynas ag atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan Heddlu De Cymru a thynnodd sylw at yr anghysondebau ar draws yr Unedau Rheoli Sylfaenol gwahanol. Er enghraifft, nododd mai gan Uned Reoli Sylfaenol y Gorllewin y cafwyd y rhan fwyaf o atgyfeiriadau, a meddyliodd tybed a oedd cyfradd uwch o atgyfeiriadau at Ffocws Dioddefwyr yn gyfystyr a lefel uwch o foddhad dioddefwyr yn yr ardal honno. Cytunwyd y byddai'n ddiddorol dadansoddi'r ystadegau fesul Uned Rheoli Sylfaenol ac adrodd yn ôl ar hyn. 3.4 Teimlai EWi ei bod yn bwysig nodi pwysigrwydd cydweithio â Heddlu De Cymru, a rhannodd enghraifft o ddioddefwr cam-drin domestig, a oedd yn amharod i ddefnyddio'r gwasanaeth i ddechrau, a arweiniodd at ganlyniad cadarnhaol yn y pen draw.
4.	Cwynion a wnaed gan Ddioddefwyr Troseddau: Canlyniadau Gwaith Hapsamplu	4.1 Estynnodd E Wool swahoddiad i JT gyflwyno ei hadroddiad ar y gwaith hapsamplu a wnaed mewn perthynas â chwynion a wnaed gan ddioddefwyr troseddau. 4.2 Nododd JT nifer y cwynion a gafwyd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2019, a dywedodd mai Uned Reoli Sylfaenol y Gorllewin oedd â'r nifer mwyaf o gwynion. Dywedodd JT fod y cwynion fel arfer yn ymwneud ag ansawdd yr ymchwiliad, agwedd y swyddogion a fu'n ymdrin â'r digwyddiad, a diffyg diweddariadau neu wybodaeth i ddioddefwyr. Trafododd JT effaith gwasanaeth gwael a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar lesiant unigolyn a'i farn am wasanaeth yr Heddlu. 4.3 Cyfeiriodd JT at ansawdd data gohebiaeth, gan gynnwys terminoleg ac acronymau'r heddlu a ddefnyddiwyd mewn llythyrau at ddioddefwyr, a fyddai'n anodd i rywun nad yw'n dod o gefndir plismona eu deall. Nododd JT bwysigrwydd tryloywder a rôl y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gymryd galwad yn ymwneud â chŵyn a cheisio annog y gweithredwr i ddelio â hi yn syth. 4.4 Gofynnodd EW i EWi grynhoi pa feysydd yr oedd angen eu blaenoriaethu mewn perthynas â delio â dioddefwyr a'u cwynion, yn ei barn hi. Pwysleisiodd EWi yr angen i wrando ar y dioddefwyr a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Nododd hefyd bwysigrwydd yr ôl-ofal yr oedd dioddefwr yn ei gael ar ôl i ymchwiliad ddod i ben, a'r angen i swyddogion sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol o'r cymorth a oedd ar gael. 4.5 Dywedodd DG wrth y bwrdd fod y Grŵp Gweithredu Strategaeth Dioddefwyr yn gweithio gyda Ffocws Dioddefwyr i ystyried sut roedd dioddefwyr yn cael diweddariadau a sut roeddent yn cael eu trin drwy systemau mewnol Heddlu De Cymru, a chadarnhaodd y byddai system newydd ar waith mewn chwe mis. Rhannodd DG fod proses wedi'i symleiddio ar waith, a oedd yn nodi anghenion y dioddefwr, pa mor agored i niwed ydoedd a ph'un a oedd yn cael ei dargedu'n barhaus. Dywedodd pe bai un o'r ffactorau hyn yn cael ei

		nodi, y byddai'r dioddefwr y cael ei atgyfeirio'n syth ac y byddai'n cael ei ddogfennu ar y system. Cadarnhaodd y byddai'r system newydd hefyd yn galluogi negeseuon i gael eu hanfon at swyddogion i'w hatgoffa i roi diweddariad i ddioddefwyr, ac y byddai'n tynnu sylw Rhingylliaid os na fyddai'r diweddariadau hyn yn cael eu rhoi. Cyfeiriodd hefyd at y gwaith o ddatblygu Strategaeth Dioddefwyr, a fyddai'n cynnwys aelodau o dîm y Comisiynydd. 4.6 Gofynnodd SM a oedd unrhyw gynlluniau ar waith i ddatblygu'r ffordd yr oedd Heddlu De Cymru yn ymgysylltu â grwpiau anos eu cyrraedd. Dywedodd CW fod hyn yn rhan o'r Strategaeth Deall Dioddefwyr, er nad oedd yn flaenoriaeth ar hyn o bryd. Nododd EW fod angen i'r bwrdd asesu sut roedd data ar ddioddefwyr yn cael eu casglu a'u rhannu rhwng yr heddlu, asiantaethau partner a swyddfa'r Comisiynydd. 4.7 Cyfeiriodd HJJ at y Strategaeth Deall Dioddefwyr, a oedd yn nodi na fyddai pobl â chyflyrau iechyd meddwl yn cael eu harolygu. Gofynnodd HJJ beth roedd yr heddlu yn ei wneud i ddeall adborth y defnyddwyr gwasanaethau hyn, a theimlai ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu cynnwys mewn arolygon. Eglurodd CW fod hyn yn cyfeirio at ganllawiau'r Swyddfa Gartref, a oedd yn nodi y dylid ystyried peidio ag arolygu dioddefwyr yr ystyriwyd eu bod yn agored i niwed, gan gynnwys pobl â chyflyrau iechyd meddwl, a dywedodd fod hyn yn cael ei fesur fesul achos. Nododd CW mai'r bwriad oedd cynnwys pobl â chyflyrau iechyd meddwl yn arolygon De Cymru, ond bod angen nodi'r ffordd briodol o wneud hynny. Awgrymodd CS y gallai rhai pobl ofyn i aelodau o'r teulu roi adborth ar eu rhan pe bai angen. Croesawodd HJJ yr ymateb y byddai pobl â chyflyrau iechyd meddwl yn cael eu cynnwys, gan y byddent yn amlwg yn cynrychioli cyfran sylweddol o ddioddefwyr a fyddai am gael eu clywed. 4.8 Gofynnodd EWi a oedd unrhyw ganllawiau ar nifer y dioddefwyr yr oedd gofyn i'r heddlu gysylltu â nhw, o ran rhoi adborth. Nododd CW fod tabl manwl yn y canllawiau, a oedd yn amlinellu nifer y bobl yr oedd angen eu harolygu er mwyn cael cyfradd ymateb briodol. 4.9 Nododd EW bwysigrwydd blaenoriaethu'r elfen dioddefwyr yn y Fframwaith Perfformiad a oedd yn cael ei ddatblygu. 4.10 Cynigiodd SM rannu ei gwybodaeth am ddeunydd cyfathrebu hawdd ei ddarllen â'r heddlu, a fyddai'n galluogi dioddefwyr ag anableddau dysgu i rannu eu barn a'u hadborth drwy arolygon yr heddlu. Roedd hyn i'w groesawu.
5.	Boddhad Dioddefwyr: Data ar Ganlyniadau	5.1 Estynnodd E Wools gwahoddiad i CW gyflwyno'r data ar Foddhad Dioddefwyr. Yn gyntaf, rhoddodd CW drosolwg o'r data ar ganlyniadau troseddau ar gyfer yr holl droseddau a rhai mathau penodol o droseddau. Nodwyd nifer y troseddau wedi bod yn cynyddu a bod nifer y canlyniadau cadarnhaol wedi bod yn lleihau. Awgrymodd tîm y Comisiynydd y byddai'n fuddiol deall sut roedd data Heddlu De Cymru yn cymharu â data heddluoedd eraill o ran canlyniadau.

		5.3 Trafododd y bwrdd y rhesymau pam roedd dioddefwyr yn rhoi gwybod am droseddau ac yna'n tynnu eu caniatâd i fynd ar drywydd yr achos yn ôl, a'r hyn yr oedd yr heddlu yn ei wneud i hysbysu dioddefwyr am effaith a risgiau peidio â chytuno i fynd ar drywydd ymchwiliad. 5.3 Rhannodd HJJ ei phryderon ynghylch nifer isel y canlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â stelcio ac aflonyddu, sef yr isaf o blith yr holl droseddau a gyflwynwyd. Atgoffodd y Bwrdd am un o argymhellion y cyfarfod at wraidd y mater ynghylch stelcio ac aflonyddu a gynhaliwyd yr haf diwethaf, sef y dylid rhannu straeon cadarnhaol am ganlyniadau llwyddiannus er mwyn annog eraill i ddeall manteision rhoi gwybod am droseddau. Dywedodd CW fod hyn yn faes busnes a oedd yn cael ei ystyried yn fewnol o ran codi ymwybyddiaeth ymhlith swyddogion drwy ddigwyddiadau a chyfleoedd dysgu. Cytunodd JG â'r pwyntiau a wnaed, ac awgrymodd fod angen cymryd camau mewn perthynas â monitro sut i wella canlyniadau stelcio ac aflonyddu. 5.4 Gofynnodd tîm y Comisiynydd a ellid dadansoddi'r data i adlewyrchu dioddefwyr mynych a throseddwyr mynych, a thrafododd y posibilrwydd o rannu stelcio ac aflonyddu yn ddau gategori fel y gellid dadansoddi a deall yn well y data yn y ddau faes. 5.5 Trafododd y Bwrdd y lefelau boddhad isel ymhlith dioddefwyr mewn perthynas ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Deallwyd bod achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn aml yn ymwneud ag amrywiaeth o asiantaethau partner a'i bod yn bwysig cofio mai dim ond hyn a hyn y gall yr heddlu ei wneud mewn rhai achosion. Er mwyn deall sut i wella boddhad dioddefwyr, roedd yn bwysig cydnabod cydgyfrifoldebau partneriaid. Trafododd y bwrdd bwysigrwydd gweithio gydag asiantaethau partner a pharhau i godi materion a rhannu arferion gorau er mwyn rhoi'r cymorth gorau i'r cyhoedd. 5.6 Nododd EW, er mwyn mynd ar drywydd y mater hwn, y dylai'r Bwrdd Partneriaethau gynnwys boddhad dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei gylch gwaith.
6.	Casgliadau ac Eithriadau.	6.1 Nododd EW y prif themâu a drafodwyd ac y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod, gan gynnwys y dylid gwneud defnydd mwy effeithiol o brosesau llywodraethu mewnol er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu rhannu'n fewnol a gyda phartneriaid allanol. Cytunwyd y dylid defnyddio'r Bwrdd Partneriaethau i fynd ar drywydd nifer o faterion a drafodwyd, yn enwedig cydgyfrifoldebau partneriaid mewn perthynas â boddhad dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol. 6.2 Nododd EW hefyd y dylai'r Strategaeth Dioddefwyr a oedd ar y gweill gael ei ddatblygu ar y cyd, ond ei berchenogi yn ddelfrydol gan y Comisiynydd a'i dîm, o ystyried ei gylch gwaith. Cytunwyd y dylai hyn gael ei uwchgyfeirio a'i nodi yng nghyfarfod Bwrdd Strategol y Comisiynydd. 6.3 Pwysleisiodd EW hefyd bwysigrwydd yr angen i'r Fframwaith Perfformiad newydd gynnwys data manwl ar ddioddefwyr, gan gynnwys dioddefwyr mynych. Byddai ceisiadau am ddiweddariadau ar y fframwaith hwn yn cael eu gwneud.

6.	Cofnodion y cyfarfod blaenorol	6.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir.
7.	Unrhyw Fater Arall	7.1 Cytunwyd y byddai camau gweithredu ac argymhellion o'r flwyddyn flaenorol yn cael eu hadolygu gan swyddfa'r Comisiynydd a'r adran Datblygu Corfforaethol yn ystod cyfarfod anffurfiol y bwriadwyd ei gynnal ym mis Ebrill. Byddai'r cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn lle'r cyfarfod uwchgyfeirio nesaf.

Tabl Camau Gweithredu

Dyddiad	Cyfarfod	Cam Gweithredu	Perchennog
12.02.20	Boddhad Dioddefwyr	Canfod p'un a ellir dadansoddi boddhad dioddefwyr fesul ardal Uned Reoli Sylfaenol (a darparu data lle y bo'n bosibl).	Carol Woodward
12.02.20	Boddhad Dioddefwyr	Asesu sut y gellir coladu a rhannu data ar ddioddefwyr rhwng yr heddlu, asiantaethau partner a swyddfa'r Comisiynydd.	Phil Ashby
12.02.20	Boddhad Dioddefwyr	SM i rannu gwybodaeth am ddeunydd cyfathrebu hawdd ei ddarllen â'r Gwasanaethau Corfforaethol.	Sarah Mahon
12.02.20	Boddhad Dioddefwyr	Ystyried sut mae data Heddlu De Cymru yn cymharu â data heddluoedd eraill o ran cyfraddau canlyniadau troseddau (ac adrodd yn ôl i'r bwrdd)	Phil Ashby
12.02.20	Boddhad Dioddefwyr	Ceisio dadansoddi'r data ar droseddau sydd ar gael i adlewyrchu dioddefwyr mynych a throseddwyr mynych, gan rannu stelcio ac aflonyddu yn ddau gategori hefyd (ac adrodd yn ôl i'r bwrdd).	Phil Ashby
12.02.20	Boddhad Dioddefwyr	JG i ymchwilio ymhellach i ganlyniadau stelcio ac aflonyddu er mwyn ystyried unrhyw feysydd y gellir eu gwella.	Jenny Gilmer
12.02.20	Boddhad Dioddefwyr	Ychwanegu Boddhad Dioddefwyr, yn enwedig mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, at gylch gwaith y Bwrdd Partneriaethau.	Mark Brace
12.02.20	Boddhad Dioddefwyr	Uwchgyfeirio perchenogaeth y Strategaeth Dioddefwyr i Fwrdd Strategol y Comisiynydd.	Emma Wools